# OWEN HOOPER
# CLWB PÊL-DROED GADLYS ROVERS JUNIORS

Pan ddechreuodd plant Owen chwarae pêl-droed i glwb Gadlys Rovers Juniors, camodd Owen i'r adwy yn gyflym i fod yn gynorthwyydd i helpu'r tîm. O fewn ychydig fisoedd, roedd e wedi cytuno i helpu hyfforddi ac roedd wedi cwblhau'r cyrsiau gofynnol. Pum mlynedd yn ddiweddarach, mae Owen bellach yn ysgrifennydd adran iau'r clwb ac yn brif hyfforddwr y tîm Dan 7 oed, yn ogystal ag aelod allweddol o dîm codi arian a threfnu achlysuron y clwb.

Mae Owen yn neilltuo rhan fwyaf ei amser sbâr i ddyletswyddau'r clwb; cydlynu timau ar draws y grwpiau oedran, gweithio'n agos gyda'r pwyllgor i sicrhau bod y clwb yn rhedeg yn effeithiol a chynllunio achlysuron gwych i godi arian hanfodol. Mae Owen wir yn angerddol dros sicrhau bod chwarae pêl-droed yn hygyrch ac yn hwyl i'r plant y mae'n eu hyfforddi. Mae'n sicrhau eu bod nhw'n dysgu sgiliau newydd wrth feithrin hyder a chael hwyl.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## RHAGFYR 2025